



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad - crynodeb o'r ymatebion

Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 –
Rheoliadau'n ymwneud â diogelu eiddo mewn
anheddu y cefnwyd arnynt

Mawrth 2022

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

Cyflwyniad

Daeth [Deddf Rhentu Cartrefi \(Cymru\)](#) ("y Ddeddf") yn gyfraith ym mis Ionawr 2016, ac fe fydd yn effeithio ar y rhan fwyaf o denantiaethau sy'n bodoli yng Nghymru. Bydd y Ddeddf yn effeithio ar tua miliwn o bobl sy'n byw ar hyn o bryd mewn llety rhent yng Nghymru, a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y diwydiant.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn haws rhentu tŷ drwy gyflwyno un fframwaith cyfreithiol clir yn lle darnau amrywiol a chymhleth y ddeddfwriaeth bresennol ar denantiaeth. Mae'r Ddeddf yn gymwys ar gyfer pob tŷ rhent yng Nghymru, gyda nifer cyfyngedig o eithriadau, fel eiddo sy'n cael ei osod dan Ddeddf Rhentu 1977.

Un o'r meysydd mae'r Ddeddf yn ceisio ei egluro'n well yw beth sy'n digwydd i eiddo mewn annedd ar ddiwedd y contract pan fydd deiliad y contract wedi cefnu arni. Mae adran 220 o'r Ddeddf yn darparu gweithdrefn i landlord allu adennill meddiant o annedd, os yw o'r farn bod deiliad y contract wedi cefnu ar yr annedd, heb orfod mynd at y llys. Mae hyn yn osgoi'r amser a'r costau diangen i landlordiaid wrth geisio sicrhau gorchymyn ar gyfer annedd y cefnwyd arni. Hefyd, mae'n sicrhau bod modd i anheddau y cefnwyd arnynt gael eu gosod eto yn gynt.

Mae Pennod 13 o Ran 9 o'r Ddeddf yn nodi'r weithdrefn y mae'n rhaid i landlord ei dilyn er mwyn adennill meddiant o annedd y cefnwyd arni. Hefyd, mae'n nodi'r rhwymedïau sydd ar gael i ddeiliaid contract, os oes sail wedi ei phrofi, o ran datganiad neu orchymyn o dan adran 222(3). Mae adran 221 o'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â diogelu eiddo (ac eithrio eiddo'r landlord), sy'n cael ei adael yn yr annedd y cefnwyd arni.

Ymgynghoriad

Ar 15 Ionawr 2018, cafodd rheoliadau drafft a chanllawiau cysylltiedig yn ymwneud â diogelu eiddo mewn anheddau y cefnwyd arnynt dan Adran 221 y Ddeddf eu cyhoeddi gan y Gweinidog Tai ac Adfywio, ar gyfer ymgynghoriad. Gohiriwyd yr ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn sgil y pandemig.

Diben yr ymgynghoriad oedd casglu safbwyntiau ac adborth ynghylch:

- Polisi cyffredinol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r rheoliadau a chanllawiau drafft
- Y gofyniad i landlord ddiogelu eiddo am fis (yn ôl y gofyn)
- P'un a yw'r canllawiau drafft yn egluro'r weithdrefn gefnu yn ddigonol o dan adran 220 o'r Ddeddf
- P'un a yw'r canllawiau drafft yn egluro'r weithdrefn ddiogelu yn ddigonol o dan adran 221 o'r Ddeddf a'r rheoliadau arfaethedig
- Yr effaith ar y Gymraeg.

Agorodd ymgynghoriad 12 wythnos ar 15 Ionawr 2018, ac roedd yn gwahodd ymatebion hyd at 6 Ebrill 2018. Gofynnwyd chwech o gwestiynau, gydag opsiwn i ymateb dros e-bost, ar-lein neu drwy'r post. Roedd y ddogfen ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru 29 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan y sefydliadau a'r unigolion canlynol:

Cyngor Abertawe
Cyngor Caerdydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Bro Morgannwg
Tai Gorllewin Cymru
Cyngor Dinas Casnewydd
Newington Homes Ltd
Tai Tarian
Trivallis
Cartrefi Cymunedol Cymru
Cymdeithas Tai Bro Myrddin
Charter Housing

Grŵp Cynefin
Meyrick Estate Management
Cymdeithas Landlordiaid Preswyl
Cymdeithas y Cyfreithwyr Cymru a Lloegr
TPAS Cymru
Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
Cymdeithas Ganolog y Priswyr
Amaethyddol
Un cwmni rheoli eiddo
9 unigolyn preifat

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad, ac am ddiolch i bawb a ymatebodd. Fe gafodd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad eu hystyried wrth gynhyrchu'r canllawiau.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i chwe chwestiwn yr ymgynghoriad. Nid oes modd iddo nodi pob sylw. Fodd bynnag, mae'n ceisio nodi themâu a materion sy'n codi'n gyson. Codwyd sawl mater nad oeddent yn effeithio yn uniongyrchol ar y mater dan sylw yn yr ymgynghoriad. Rydym wedi nodi'r materion hynny, ond heb eu hystyried yn fanwl fel rhan o'r ymateb hwn. Daeth bron pob un o'r ymatebion i'r ymgynghoriad gan bobl neu sefydliadau yng Nghymru.

Yr ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno â'n dull cyffredinol o bennu sut y dylai landlord ddiogelu eiddo sydd wedi'i adael mewn annedd y cefnwyd arni?

O'r ymatebion a gafwyd, roedd:

2 (7%) heb ateb y cwestiwn yn uniongyrchol

16 (55%) wedi ateb 'ydw'

11 (38%) wedi ateb 'nac ydw'

O'r rhai atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol, dywedodd 59% 'ydw' a 31% 'nac ydw'.

Roedd 16 (55%) o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn ffafriol, ac yn datgan eu bod yn croesawu'r dull gweithredu cyffredinol ynghylch sut y dylai landlord ddiogelu eiddo sydd wedi'i adael mewn annedd y cefnwyd arni. Roedd yr ymatebion hynny yn cynnwys pob un gan awdurdodau lleol, cymdeithasai tai, grwpiau sy'n cynrychioli landlordiaid a nifer o unigolion preifat.

Dywedodd 11 (38%) o'r ymatebion nad oeddent yn cytuno â'r dull gweithredu cyffredinol. Roedd hyn yn cynnwys 3 ymateb gan gymdeithasau tai, ymateb gan Gymdeithas y Cyfreithwyr Cymru a Lloegr a 7 unigolyn preifat.

Dywedodd pump o'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig, gan ddadlau bod y rheoliadau yn rhoi gormod o bwysau ar y landlord, ac mai'r tenant yn y pen draw ddylai fod yn gyfrifol am ddiogelu eu heiddo. Dywedwyd ei bod yn annheg rhoi baich ychwanegol ar landlordiaid i ddiogelu'r eiddo hwnnw. Roedd yr ymatebwyr hynny i gyd yn unigolion preifat.

Dywedodd un ymatebydd nad oedd yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig, gan ddadlau nad oedd digon o fesurau diogelu ar gyfer y tenant, bod landlordiaid yn debygol o roi llai o werth ar eiddo, ac y dylai eiddo gael ei ddiogelu gan gorff annibynnol fel yr heddlu.

Dywedodd un ymatebydd nad oedd yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig, gan nad oedd yn cynnig digon o amddiffyniad i'r landlord na'r tenant.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae'r gyfraith bresennol ar ddelio ag eiddo mewn annedd y cefnwyd arni yn gymhleth ac yn aneglur, yn gymysgedd o gyfraith gyffredin a deddfwriaeth a all weithredu'n wahanol gan ddibynnu ar amgylchiadau penodol, gan gynnwys p'un a yw'r landlord yn awdurdod lleol, yn gymdeithas dai neu'n unigolyn preifat.

Mae'r rhan fwyaf o randdeiliaid yn cydnabod bod y Rheoliadau hyn yn gwneud y gyfraith ar ddelio ag eiddo a adawyd mewn annedd yn fwy eglur. Mae'r Rheoliadau yn ceisio cydbwysu buddiannau'r landlord, a allai ysgwyddo costau wrth ddiogelu eiddo, a buddiannau'r tenant, a fydd o bosib am gael ei eiddo personol yn ôl pan fydd yr annedd yn wag.

Dylid nodi y bydd y Rheoliadau ond yn gymwys mewn perthynas ag eiddo wedi'i adael mewn anheddau y cefnwyd arnynt. Ni fyddant yn gymwys ar gyfer eiddo a adawyd mewn anheddau lle cafodd y preswylwyr blaenorol eu troi allan, er enghraifft am beidio talu rhent. Dim ond pan fydd contract meddiannaeth yn dod i ben o dan adran 220 y Ddeddf y bydd y Rheoliadau yn berthnasol.

Cwestiwn 2 – Ydych chi'n cytuno â'r gofyniad i landlord ddiogelu eiddo am fis (lle bo angen)?

O'r ymatebion a gafwyd, roedd:

2 (7%) heb ateb y cwestiwn yn uniongyrchol

14 (48%) wedi ateb 'ydw'

13 (45%) wedi ateb 'nac ydw'

O'r rhai atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol, dywedodd 52% 'ydw' a 48% 'nac ydw'.

Roedd rhai o'r ymatebion a ddaeth i law mewn perthynas â Chwestiwn 2 yn ymwneud â gweithredu'r weithdrefn gefnu, ac felly tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad hwn. Ymysg yr ymatebion a oedd yn rhoi sylw penodol i Gwestiwn 2 roedd:

- Dylai'r cyfnod o amser gael ei fyrhau i 7 neu 14 diwrnod, gan fod diogelu eiddo deiliaid contract am gyfnod hwy yn rhy llafurus i landlordiaid
- Bydd y ddyletswydd i ddiogelu eiddo yn atal y landlord rhag rhentu'r eiddo yn sydyn
- Dylai'r gofynion ynghylch amserlenni fod yn gyson drwy gydol y ddeddfwriaeth, ee 28 diwrnod, 4 wythnos neu 1 mis
- Dylid gwneud eithriad mewn perthynas ag anifeiliaid anwes, gan ei bod yn afresymol disgwyl i landlord gadw anifail anwes am fis.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad gwreiddiol, mae cyfnod diogelu o fis yn cael ei ystyried yn briodol. Mae'r cyfnod hwn yn cydnabod y gallai fod achosion lle bydd y person arferai fyw yno yn dymuno cael gafael ar eu heiddo ar ôl i'r annedd gael ei adael yn wag, a bod gwerth ariannol neu sentimental i'r eiddo a adawyd ar ôl. Fodd bynnag, yn ymarferol, yn y rhan fwyaf o achosion ni fydd rhaid i landlord ddiogelu unrhyw beth oherwydd na fydd unrhyw eiddo o werth yn cael ei adael yn yr annedd, neu, yn achos bwyd, bydd angen ei daflu. Bydd hefyd yn darparu tua dau fis i ddeiliad y contract, o gyfrif y cyfnod rhybudd o dan adran 220 y Ddeddf, i gysylltu â'r landlord ynghylch unrhyw eiddo.

Nid yw'r rhwymedigaeth i ddiogelu eiddo yn gwahardd y landlord rhag adennill meddiant o'r annedd cyn gynted ag y daw'r contract i ben. Fodd bynnag, bydd y landlord yn penderfynu ble i storio unrhyw eiddo yn ystod y cyfnod diogelu, gan ganiatáu i'r annedd gael ei ailosod cyn gynted ag y bo modd.

Mae'r Rheoliadau yn gosod dyletswydd ar landlord i ddiogelu eiddo sydd wedi'i adael mewn anheddau y cefnwyd arnynt am fis o'r dyddiad y daw'r contract i ben. Fodd bynnag, cydnabyddir bod potensial am ddryswch os bydd amserlenni gwahanol yn cael eu defnyddio ar gyfer y cyfnod rhybudd (pan fydd rhaid i'r landlord fodloni ei hun bod yr annedd yn wag) a'r cyfnod ar gyfer diogelu eiddo a fydd yn parhau ar ôl i'r contract ddod i ben yn sgil cefnu ar yr annedd. Felly er mwyn bod yn gyson, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu newid y cyfnod diogelu o fis i bedair wythnos.

Mae'r Rheoliadau yn amlinellu rhwymedigaethau'r landlord i ddiogelu 'eiddo'. Yn ymarferol, os yw landlord yn credu bod anifail anwes yn dal i fod mewn eiddo a adawyd, byddai angen dod o hyd i ateb arall ar unwaith. Gallai hynny gynnwys cysylltu â

pherthynas agosaf neu'r RSPCA er mwyn gweld a fyddai modd iddynt ofalu am yr anifail/anifeiliaid.

Cwestiwn 3 – Ydych chi'n cytuno â chynnwys y canllawiau ar feddiannu anheddau y cefnwyd arnynt?

O'r ymatebion a gafwyd, roedd:

4 (14%) heb ateb y cwestiwn yn uniongyrchol

15 (52%) wedi ateb 'ydw'

10 (35%) wedi ateb 'nac ydw'

O'r rhai atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol, dywedodd 60% 'ydw' a 40% 'nac ydw'.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn ffafriol ac yn cytuno â chynnwys y canllawiau. Fodd bynnag, roedd rhai awgrymiadau ynghylch ffyrdd o wella neu egluro'r canllawiau. Er enghraifft:

- Egluro a yw ôl-ddyledion rhent yn ddigon ynddo'i hun fel tystiolaeth o gefnu ar annedd.
- Ychwanegu at y rhestr o ddangosyddion posib 'methiant i gydymffurfio ag archwiliadau nwy, profion diogelwch trydanol a phrofion asbestos' a 'post heb ei gasglu'.
- Ychwanegu personau ychwanegol i gysylltu â nhw, gan gynnwys Swyddog Cyswllt Tenantiaid/Swyddogion Rhent awdurdodau lleol a swyddogion carchar.
- Darparu mwy o eglurder ynghylch a yw'r canllawiau yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).
- Dileu'r gofyniad i gysylltu â meddygon teulu ac ysbytai gan ei fod yn anymarferol ac o bosib yn mynd yn groes i reolau diogelu data.
- Ychwanegu adnoddau i helpu landlordiaid i gwblhau'r broses, er enghraifft rhestr wirio enghreifftiol neu siart lif.
- Ychwanegu dolen at y templed hysbysiad rhagnodedig y cyfeiriwyd ato yn Adran 220 (3) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru).

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Wrth ystyried p'un a ddylid dechrau ar weithdrefnau cefnu o dan adran 220 y Ddeddf, mae'n hanfodol bod y landlord yn credu mewn gwirionedd bod yr annedd yn wag. Y cyfnod rhybudd o bedair wythnos yw cyfle'r landlord i wneud yr ymholiadau angenrheidiol i'w fodloni bod deiliad y contract wedi cefnu ar yr annedd mewn gwirionedd. Nid yw ôl-ddyledion rhent yn unig yn cyfrif fel tystiolaeth ddigonol bod yr eiddo yn wag. Ni ddylai landlord ystyried unrhyw ffactor penodol fel prawf awtomatig bod eiddo yn wag. Rhaid i landlord fodloni ei hun bod yr eiddo yn wag yn ystod y cyfnod rhybudd. Os nad yw hynny'n bosibl, dylai'r landlord geisio cael meddiant ar sail tor contract neu adran o dan 173 y Ddeddf.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu awgrymiadau ynghylch gwelliannau i'r Canllawiau. Bydd y Canllawiau yn cael eu hystyried yng ngoleuni'r awgrymiadau, ac fe fydd awgrymiadau o'r fath yn cael eu cynnwys lle bynnag y bo'n briodol.

Fodd bynnag, dylid nodi mai cyngor yn unig yw'r Canllawiau, yn arbennig ynghylch ymchwiliadau gan landlordiaid. Mater i unrhyw unigolyn neu sefydliad y bydd landlord yn cysylltu â nhw fydd darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani.

Nod y Canllawiau yw darparu arweiniad cyffredinol i landlordiaid er mwyn iddynt fedru barnu pa gamau fyddai'n rhesymol eu cymryd dan yr amgylchiadau. Mae'r Canllawiau yn darparu rhestr o arwyddion posib bod annedd yn wag, a rhestr o bersonau y gallai'r landlord ddymuno cysylltu â nhw i wirio ymhellach. Nid oes gofyn i landlord 'dicio pob blwch' ac fe fyddai camau priodol i'w cymryd yn amrywio fesul achos.

Byddai, er enghraifft, yn rhesymol i landlord gysylltu â Swyddog Cyswllt Tenantiaid yr awdurdod lleol i weld os ydy'n gwybod a oedd cyn-feddiannydd yn bwriadu cymryd tenantiaeth arall, neu eisoes wedi gwneud hynny. Yn yr un modd, gall landlord gysylltu ag aelodau o'r teulu i ganfod lleoliad deiliad y contract.

Cwestiwn 4 – Ydych chi'n cytuno bod y canllawiau drafft yn egluro'r weithdrefn ddiogelu o dan y rheoliadau yn ddigonol?

O'r ymatebion a gafwyd, roedd:

2 (7%) heb ateb y cwestiwn yn uniongyrchol

15 (52%) wedi ateb 'ydw'

12 (41%) wedi ateb 'nac ydw'

O'r rhai atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol, dywedodd 56% 'ydw' a 44% 'nac ydw'.

Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd yn meddwl bod y Canllawiau drafft yn esbonio'r weithdrefn ddiogelu o dan y Rheoliadau yn ddigonol. Fodd bynnag, roedd nifer o awgrymiadau ynghylch testun i'w ychwanegu/ddileu o'r canllawiau. Yn eu plith:

- Dylid tynnu llun o'r holl eiddo personol yn yr eiddo, nid y rhai sy'n cael eu gwaredu yn unig;
- Angen rhagor o eglurder ynghylch sut dylid ymdrin ag eitemau sy'n cynnwys data personol (er enghraifft gliniaduron);
- Angen canllawiau pellach ynghylch sut dylid storio eiddo a faint ddylid ei godi ar y cyn-feddiannydd;
- Angen canllawiau pellach ynghylch sut i werthuso a gwerthu'r nwyddau, er enghraifft a oes hawl i landlordiaid werthu eiddo i gyd gyda'i gilydd mewn un lot;
- Angen rhagor o eglurder ynghylch sut y dylid ymdrin ag unrhyw eiddo sydd o bosib o werth sentimental (ee ffotograffau, trysorau teuluol);
- Angen rhagor o eglurder ynghylch pa drefniadau rhesymol ddylid eu gwneud ar gyfer cael yr eiddo yn ôl i'r perchennog;
- Angen rhagor o eglurder ynghylch sut y dylid ymdrin ag unrhyw gyllid sydd dros ben (ar ôl talu costau cydymffurfio â'r rheoliadau).

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r holl awgrymiadau a wnaed ac yn bwriadu eu hystyried cyn cyhoeddi'r Canllawiau. Fodd bynnag, nod y Canllawiau yw rhoi arweiniad cyffredinol i'r landlordiaid er mwyn iddo fedru barnu pa gamau fyddai'n rhesymol dan yr amgylchiadau. Ni fyddai'n iawn i'r canllawiau fod yn feichus nac yn anhyblyg i landlordiaid sy'n mynd i'r afael ag anheddau y cefnwyd arnynt. Bydd yn anodd rhoi sylw manwl yn y canllawiau hyn i ymdrin ag eitemau o werth sentimental neu'r rhai sy'n cynnwys data sensitif, oherwydd mae'n bosib na fydd materion o'r fath yn amlwg.

Cwestiwn 5 – Hoffech chi wneud unrhyw sylwadau eraill ar y Rheoliadau drafft neu'r canllawiau drafft?

Darparodd 11 (38%) sylwadau pellach.

Nid yw pob ymateb wedi'i gynnwys yma gan nad oedd pob un yn berthnasol i'r ymgynghoriad penodol hwn. Ymysg y sylwadau perthnasol roedd y canlynol:

- Os yw deiliad y contract yn llwyddo i herio'r broses yn y llys (a allai ddigwydd hyd at chwe mis yn ddiweddarach) mae perygl i'r landlord ei gael ei hun yn atebol am unrhyw eiddo a gafodd ei waredu/ei werthu;
- Dylid darparu mesurau diogelu ychwanegol sy'n amddiffyn y landlord a'r tenant rhag unrhyw anghydfod posib a rhoi ffyrdd o wneud yn iawn;
- Nodir y bydd y rheoliadau arfaethedig ond yn gymwys i anheddau sy'n unig neu brif gartref. Dylid ei gwneud yn gwbl glir i landlordiaid bod rhaid cynnwys y weithdrefn cefnu ar eiddo fel ychwanegiad at delerau contract meddiannaeth cyn medru ei defnyddio.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

O dan Adran 222 o'r Ddeddf, caiff deiliad contract wneud cais i'r llys, ar sail a nodir yn adran 222(2) y Ddeddf, am ddatganiad neu orchymyn o dan adran 222(3) neu am unrhyw orchymyn arall sy'n briodol ym marn y llys. Mae gan y llys ddisgresiwn eang pan fo'n ystyried bod gan ddeiliad y contract sail ddilys i herio penderfyniad y landlord i adennill meddiant o'r annedd. Dylai landlord ystyried y rhwymedïau sydd ar gael i ddeiliad y contract wrth geisio rhoi terfyn ar gontract meddiannaeth.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod y Rheoliadau presennol yn taro cydbwysedd cywir rhwng mesurau i ddiogelu deiliad y contract a gallu'r landlord i ailosod annedd cyn gynted â phosibl.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr holl awgrymiadau a wnaed cyn cyhoeddi canllawiau.

Cwestiwn 6 – Er bod y papur ymgynghorol hwn ar gael yn Gymraeg, allwch chi awgrymu sut y gellid llunio neu newid y ddogfen arfaethedig ‘Ffit i Bobl Fyw’ neu ei newid er mwyn cael:

i) effeithiau cadarnhaol neu mwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a

ii) dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

O'r ymatebion a gafwyd: Darparodd 3 (10%) sylwadau pellach.

Dywedodd dau eu bod yn croesawu'r ffaith bod y rheoliadau a'r canllawiau ar gael yn ddwyieithog.

Dywedodd un y gellid cynnal gweithdy gyda rhanddeiliaid i drafod dyluniad y ddogfen a sut i'w gwneud mor hwylus â phosibl i bobl gael gafael arni.

Ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiwn 6:

Bydd y Rheoliadau a'r Canllawiau ar gael ar-lein yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Casgliad

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar am yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad, ac yn bwriadu eu hystyried wrth lunio'r Rheoliadau a chyhoeddi'r Canllawiau. Bydd y fersiynau terfynol yn cael eu cyhoeddi wrth ochr dogfennau eraill yn ymwneud â'r Ddeddf.